


Aber-wysg i Redwick

Amdiffynfeydd presennol a'r tebygolwydd o lifogydd

Mae'r amdiffynfeydd môr presennol yn diogelu tir amaethyddol a phentrefi ar Wastatir Caldicott ac yn sicrhau bod y perygl llifogydd llanw i'r rhan fwyaf o eiddo yn 1 siawns mewn 200 neu lai mewn unrhyw flwyddyn. Mae llinellau trydan strategol ymysg y seilwaith a ddiogelir gan yr amdiffynfeydd.

Mae'r argloddiau ar yr ochr fewndirol Gwarchodfa Natur Genedlaethol Gwlypdiroedd Casnewydd yn rhoi lefel pellach o ddiogelwch rhag llifogydd.

Argloddiau pridd yw'r amdiffynfeydd fel arfer, gyda diogelwch congrid neu garreg yn aml. Gellir uwchraddio'r rhain ar yr adeg iawn.



Beth ellir ei wneud?

Byddwn yn parhau i gynnal llinell a lefel yr amdiffynfeydd dros y 100 mlynedd nesaf.

Wedi 2060 bydd gwelliannau a fydd yn cadw'n wastad â newid hinsawdd. Mae'n debygol y bydd hyn angen amdiffynfeydd meini neu ddiogelwch congrid lle nad yw hynny'n bodoli'n barod, a'u codi i sicrhau bod y perygl llifogydd llanw yn aros ar 1 siawns mewn 200 neu lai. Gallwn ddisgwyl i'r gwaith codi angenrheidiol fod oddeutu 0.4m

Nodyn ar godiad yn lefel y môr

Mae senario allyriadau canolog UKCP09 yn rhagweld codiad yn lefel y môr o 0.1m erbyn 2030, tua 0.3m erbyn 2060 a 0.7m erbyn 2110.

Ar hyn o bryd mae lefel y môr yn codi rhyw 2 i 2.5mm y flwyddyn. Os bydd y gyfradd hon yn parhau yna byddai codiad yn lefel y môr yn llai na'r hyn a ragamcanwyd gan y senario allyriadau canolog UKCP09.

Sut y penderfynwyd ar y cynigion hyn

Mae achos economaidd gref dros gynnal a gwella'r amdiffynfeydd presennol oherwydd y nifer uchel o eiddo a seilwaith a ddiogelir. Nid yw ailadeiladu'r amdiffynfeydd ymellach i mewn i'r tir yn opsiwn rhatach ar gyfer y dyfodol agos

Allwedd



Amdiffynfeydd presennol a gyfeirir atynt yn y ddogfen